



CWTSH MYRDDIN

Rhifyn – Nadolig.2015

Gwasanaeth Nadolig

Ar nos Fawrth, Rhagfyr y 15fed croesawyd pawb i wasanaeth Nadolig Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yng Nghapel y Priorddy, Caerfyrddin. Braff oedd gweld y capel dan ei sang a chafwyd noson arbennig yng nghwmni y disgyblion, staff, rhieni a chyfeillion. Cafwyd nifer o gyfraniadau cerddorol gan gynnwys eitemau gan y parti merched hŷn, y parti bechgyn iau a hŷn, y parti merched iau, y côr iau, y côr merched hŷn, y côr cymysg hŷn a'r côr staff. Uchafbwynt y noson oedd uno pob côr ar gyfer y gân 'Un Enaid bach.' Yn ystod y noson hefyd cafwyd darlleniadau amrywiol gan Catrin Owen, Aled Rosser, Anell Dyfri, Betsan Campbell, Lowri Luxton, Carwyn Bebb, Catrin Lewis, Rhys Evans, Ifan Jones, Mrs Lynwen Roberts, Cadeirydd y Corff Llywodraethol, y Parchedig Beti Wyn James a Dr Llinos Jones, y pennaeth.



Cafwyd perfformiadau hefyd gan Elen Fflur Davies, Sioned Beynon, Ela Wyn James a pharti llefaru blwyddyn 10. Diolch yn arbennig i'r hyfforddwyrs Mrs Meirir Richards, Mrs Nia Evans, Mrs Lowri Davies, Mrs Helen Evans a Mrs Ffion Page. Diolch hefyd i'r organydd Mr Meirion Wynne Jones ac i athrawon teithiol Gwasanaeth Cerdd Sir Gaerfyrddin. Gwnaethpwyd casgliad o £313.18 ar y noson ar gyfer cronfa apêl y Nadolig Byddin yr Iachawdwriaeth. Diolch i bawb a

gyfrannodd at lwyddiant y noson. Dyma noson gofiadwy a ddangosodd i bawb beth oedd gwir ystyr y Nadolig.



Gwasanaeth ola'r tymor

Ar brynhawn Gwener, y 18fed o Ragfyr daeth yr ysgol i gyd ynghyd ar gyfer gwasanaeth olaf y tymor. Cafwyd llu o eitemau amrywiol a chyfle i ffarwelio gyda staff a dymuno'n dda i ddisgyblion. Ffarweliwyd a diolchwyd i Mrs Joanna Rees, pennaeth yr Adran Fioleg; Mrs Alma Roberts o'r Adran Gymraeg, Miss Zena Cooper y cwnselydd a Mr Gethin Evans, y technegydd. Dymunwyd yn dda i bob yr un ohonynt yn y dyfodol.